COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
17eg O CHWEFROR 2010 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL
CYNGOR TREF LLANBEDR PS: Cyng. Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Cyng Chris Thomas a'r Cyng. Derek Wilson.
CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Robert (Hag) Harris
Cyng Ivor Williams
MUDIAD MYDTARA
Lizzie James
Sue Davies
Maureen Williams
YN GWEINYDDU
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llambed
SCCH Ryan Jones

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod gan gynnwys yr aelod newydd, sef Mrs Maureen Williams. Y mae Mrs Williams yn cynrychioli'r mudiad MYDTARA oherwydd ymddiswyddiad Carol Davies.

2. YMDDIHEURIADAU: Cyng. Greg Evans

3. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL: Dim.

4. COFNODION CYFARFOD 26/01/2010
Anffurfiol bu'r cyfarfod o'r 26ain o Ionawr. Cyhoeddodd y Maer bod y Cyngor Tref wedi sicrhau cymhorthdal o £15,000 dan law'r heddlu sef o'r gronfa'r *Cynllun Community Cashback.* Pwysleisiodd yr angen i wario'r arian cyn yr 31ain o Fawrth 2010. Diolchwyd i'r SCCH Ryan Jones am gyflwyno'r grant ar ran y cyngor tref.

5. MATERION YN CODI

5.1 PRIDD Y WADD
Bydd Mr D.Evans o Landysul yn ymdrin â'r broblem. Amcanbris y gost yw £300.

5.2 GWAIR SY'N TYFU YR OCHR ALLANOL I'R FFENS AC YN AGOS I GWRBYN YR HEOL SY'N ARWAIN AT STÂD MAESYDERI
Cynigodd y Cynghorydd Sir Williams ei wasanaeth i dorri'r gwair a dyf yma.

5.3 TOCIO'R PERTHI
Yn mynd yn ei flaen gan gwnmi yn dwyn yr enw *Gwasanaethau Coed Cyf Llambed*.

5.4 TRWSIO/ATGYWEIRIO'R FFENS
Bu i'r Cyng. Wilson dderbyn dyfynbris gan y Garej Teifi Forge, Cwmann ac y mae'n disgwyl dyfynbris arall. Penderfynwyd arddangos hysbyseb ar yr hysbysfwrdd i geisio dyfynbrisiau. Y Cyng. Wilson i lunio'r swydd-ddisgrifiad. Dyddiad cau Canol Dydd 2 Mawrth 2010.

5.5 ARWYDDION
Cytunwyd i archebu 2 arwydd ychwanegol, yn debyg i'r hyn a archebwyd ynghynt, yn gwahardd cŵn ayyb. Y mae'r arwyddion gwahardd cŵn a dderbyniwyd gan yr heddlu, wedi eu harddangos erbyn hyn, ar y pyst, ger y cae.

5.6 LLWYBRAU CERDDED
Bu i Lizzie James gysylltu â Mr Tony Eames parthed y llwybrau cerdded arfaethedig ar gyfer y cae. I wahodd Mr Eames i gyfarfod safle a drefnwyd ar gyfer y dyfodol agos, er mwyn cynghori aelodau.

5.7 **PYG**: i farcio'r pyg ar ôl lefelu'r cae.

5.8 **CANIATÂD CYNLLUNIO:** gwnaed ymholiadau gan y Cynghorydd Sir Harris, ynglŷn â'r angen o bosibl, i geisio caniatâd cynllunio, ar gyfer ymwneud â'r holl neu ran o'r cynlluniau arfaethedig ee gosod offer chwarae, trac-baw, llwybrau cerdded. Y mae Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned yn manteisio o'r hawl sy'n caniatau datblygu o dan Ran 12 o'r Gorchymyn Hawl Cyffredinol 1995. Er y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn syrthio o fewn terfynau hawliau cyfreithlon yn eu crynswth neu'n unigol, yn ôl y cyngor sir dywedwyd y gallai'r cynigion beidio â chydymffufrio â'r hyn a ganiateir ac a ddiffiniwyd fel "unrhyw adeilad, gwaith neu offer bach cynorthwyol" ac felly byddai'n hanfodol derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith – i gadw'r wybodaeth ar ffeil ar gyfer y dyfodol.

5.9 **Y MEINCIAU**

Lleolir 3 mainc ar y cae maes o law, sy'n weddill o Barc-yr-Orsedd. Y mae'r Cyng. Chris Thomas yn y broses o drwsio un mainc ar y tro a'i gosod ar y cae. Derbyniwyd 3 amcanbris am 5 o fyrddau picnic a 2 fainc gan 3 cwmni megis J&E, Llambed, G.Phillips ac Alec Page. Penderfynwyd i gysylltu â Mr M. Miller i geisio amcanbris ar gyfer y byrddau picnic. Ni ddaethpwyd i benderfyniad parthed y ddwy fainc.

5.10 **LEFELU'R CAE**

Bu i'r Cyng. Wilson dderbyn 2 amcanbris gan Mr Frank Sisto yn ymwneud â lefelu'r cae. Cytunwyd i geisio amcanbrisiau pellach. Gosodir hysbyseb ar yr hysbysfwrdd. Byddai'r Cyng. Wilson yn llunio'r swydd ddisgrifiad. Amcanbris o'r gost £4,000.

5.11 **DEFNYDD POSIBL AR GYFER Y CAE YN YSTOD Y DYFODOL**

Adroddwyd bod y cae wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion a Safloedd Posib. Gall hyn olygu y bydd y cae yn cael ei ddefnyddio at ddibenion adeiladu yn ystod y dyfodol. Derbyniwyd y Cyngor Tref les 3 blynedd ar y cae gan y cyngor sir gan ddechrau ar y 13eg o Ebrill 2009. Ar ôl y cyfnod hwn ni fydd gan y cyngor tref unrhyw hawliau i barhau â'r les. Cytunodd y Maer i anfon cais at y cyngor sir i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i dderbyn estyniad ar y les.

5.12 **TRAC BAW:** Dosbarthwyd yr wybodaeth a gasglwyd gan Lizzie James parthed y trac baw, ymysg aelodau, i dderbyn ystyriaeth yn ystod y dyfodol.

6. **CYLLID**

6.1 **TREULIAU CYN BELLED**

EITEM	**PRIS HEB TAW**	**TAW £**	**CYFANSWM £**
GÂT	365.00	54.75	419.75
ARWYDD NEWYDD	109.00	16.35	125.35
6 TORIAD GWAIR			800.00
Argraffu 400 o daflenni			36.00
Tocio Perthi Gwasanaethau Coed Llambed Cyf	350.00	52.50	402.50
Gwasanaethau Coed Llambed Cyf	480.00	84.00	564.00
CYFANSWM CYN BELLED GAN GYNNWYS TAW			£2,347.60
CYFANSWM CYN BELLED HEB GYNNWYS TAW			**£2,140.00**

6.2 **Yng nghyfarfod** cyllid y cyngor tref o'r 14 Ionawr 2010 cytunwyd y gallai Pwyllgor y Cae wario i fyny at £1,500 ar dreuliau, yn flynyddo,l cyn gofyn caniatâd y pwyllgor llawn.

6.3 **Y GOST**

Cyflwynir y cyfrifon yn amlinellu'r gost gwahanol eitemau â chyfanswm o £15,000 gan y Maer (a dderbynnir dan law cynllun yr heddlu sef y *Community Cashback)* megis:

Gwaith yn ymwneud â'r tir gan gynnwys torri'r porfa, tocio coed/perthi, ymdrin â phridd y wadd, llwybrau cerdded	£4,500
Trwsio'r ffens	£7,500
Offer	£3,000
CYFANSWM	**£15,000**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod safle yn ystod y dyfodol agos i drafod lefelu'r cae, gosod y llwybrau cerdded ac i atgyweirio'r ffens

.

COFNODION Y CYFARFOD SAFLE A GYNHALIWYD AR GAE MAESYDERI AM 10AM AR Y 25AIN CHWEFROR 2010

YN BRESENNOL

Y Maer Selwyn Walters, y Gyng. Cecilia Barton, Cyng. Derek Wilson, Chris Thomas, Eleri Thomas (Clerc), Lizzie James, SCCH Ryan Jones, Mr Frank Sisto.

Derbyniwyd cyngor gan Mr Frank Sisto parthed lefelu'r darn o dir a ddefnyddir ar gyfer y pyg pêl-droed. Ymddengys hysbyseb ar hyn o bryd ar yr hysbysfwrdd yn gwahodd cynigion ar gyfer y gwaith. Dyddiad cau 12 Canol Dydd 2 o Fawrth 2010.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45am

COFNODION Y CYFARFOD SAFLE A GYNHALIWYD AR GAE MAESYDERI AM 4PM AR YR AIL O FAWRTH 2010

YN BRESENNOL

Y Maer Selwyn Walters, Y Gyng. Cecilia Barton, Eleri Thomas (Clerc), Lizzie James, Mr Tony Eames.

Rhoddwyd cyngor gan Mr Tony Eames parthed gosod y llwybrau i'w lleoli ar 3 ochr i'r cae ac nid ar yr ochr ger, ac yn baralel i'r heol sy'n arwain at stâd Maesyderi. Hyd oddeutu 245metr. Bydd y gwaith yn cynnwys gwaredu â 245metr o dywarchen, gosod y croenyn gwrth-sefyll chwyn mewn lle 245m o hyd, a gosod y llwybrau gan ddefnyddio Carreg Down ¾ a'u gwneud yn gadarn.

Adroddwyd mai ond un amcanbris a ddaeth i law parthed lefelu'r pyg, gan Mr Frank Sisto. Cytunwyd i dderbyn amcanbris Mr Sisto o £3,882 (heb TAW). Gallai ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl.

Derbyniwyd 2 amcanbris ynglŷn ag atgyweirio'r ffens ddolen gadwyn (yn ôl yr angen sydd ar amfesur cae Maesyderi) Hyd 380metr.

1. Gan Mr Kevin Jones, Garej Teify Forge Cyf, £18 y metr = £6,840;
2. Gan Mr G Evans, Parcyrhos, Blaencwrt, Llanwnnen £21.50 y metr = £8,170

Cytunwyd i dderbyn amcanbris Mr Kevin Jones. Gallai ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)